

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg

Bydd cyfarfod o **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg** yn cael ei gynnal
Dydd Mercher, 9 Hydref 2019 am 10.00 am
Ystafell Bwllgor 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,
Tonypandy CF40 2XX

Dolen gyswilt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2019.

(Tudalennau 3 - 8)

3. GWASANAETH YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD IEUENCTID – CYNNYDD O RAN CYFLWYNO'R GYMRAEG

Derbyn cyflwyniad gan Reolwr y Gwasanaethau Ieuencid mewn perthynas â'r cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud wrth gyflwyno'r Gymraeg yn y maes gwasanaeth.

(Tudalennau 9 - 24)

4. RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned, sy'n rhoi diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn ag ymateb y Cyngor i Restr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018

(Tudalennau 25 - 70)

5. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG – ADRODDIAD CYNNYDD

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned, sy'n darparu trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o gyflawniad y Cyngor yng nghyd-destun Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gafodd ei chymeradwyo ar 25 Ionawr 2017.

(Tudalennau 71 - 132)

6. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

CYLCHREDIAD:

Y CYNGHORWYR

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)
Y Cyngorydd J Rosser (Is-gadeirydd)
Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd E Stephens

SWYDDOGION:

Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

MENTER IAITH

Einir Sion

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Llun, 29 Ebrill 2019 am 10.00 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cyngorydd R Bevan Y Cyngorydd J James

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Mr J Phillips, Swyddog Datblygu Campau Dŵr
E Siôn, Menter Iaith

8 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber, J. Rosser ac E. Stephens.

9 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

10 Cofnodion

PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gafodd ei gynnal ar 10 Hydref 2018, yn rhai cywir.

11 Campau Dŵr Cyfrwng Cymraeg

Rhoddodd y Swyddog Datblygu Campau Dŵr gyflwyniad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn â chynnydd cadarnhaol y gwaith o gynnal Campau Dŵr Cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â gwersi nofio yn Gymraeg.

Yn unol â Safon 84, eglurodd y Swyddog fod angen i gwrs sydd ar agor i aelodau'r cyhoedd gael ei gynnig ar yr un lefel yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyn hyn, roedd y Cyngor yn darparu gwersi nofio drwy'r Urdd, ond doedden nhw ddim yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau. Roedd yr Aelodau yn falch o glywed

bod trafodaethau blaenorol y Grŵp, yn ogystal ag ymholiadau gan rieni, wedi arwain at wneud cynnydd cadarnhaol o ran y ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu bod y gwersi nofio sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg o'r un safon â'r gwersi nofio sy'n cael eu cynnal yn Saesneg.

Gyda chymorth cyflwyniad fideo a lluniau, dangosodd y Swyddog Datblygu Campau Dŵr fod cynllun gweithredu wedi'i lunio mewn partneriaeth â'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg er mwyn bodloni'r Safonau'n llwyddiannus. Roedd hi'n galonogol clywed bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar brofiadau cwsmeriaid a bod 50 o bobl ifainc wedi bod yn cael gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg ers mis Medi 2018. Dysgodd yr Aelodau fod y 'porth i rieni', y mae modd i bob rhiant/cynhaliwr ei ddefnyddio i gadw golwg ar gyflawniadau a chynnydd ei blentyn, bellach ar gael yn ddwyieithog er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn cael yr un profiad, waeth beth fo'i ddewis iaith.

Aeth y swyddog ymlaen i gyfeirio at yr heriau canlynol:

- Staffio - y broblem wrth ddod o hyd i athrawon;
- Cost - llogi'r pwll a chostau hyfforddiant; ac
- Amser yn y pwll

Er gwaetha'r heriau, soniodd y swyddog am y camau gweithredu canlynol, sydd wedi'u rhoi ar waith er mwyn gwneud rhagor o gynnydd mewn perthynas â'r ddarpariaeth:

- Trosglwyddo'r drefn ar gyfer Canolfan Hamdden Rhondda i'r Gwasanaeth Hamdden am Oes. Caiff gwersi nofio eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd ond dydyn nhw ddim yn cyfateb â'r gwersi Saesneg;
- Llunio cynllun ar gyfer Cwm Cynon, ond mae hyn yn amodol ar y cynnydd posibl yn y galw mewn mannau eraill;
- Cyflwyno sesiynau i fabanod a phlant bach;
- Cynyddu nifer y lleoedd drwy gynnal rhagor o wersi;
- Hysbysebu'n well gan ddefnyddio Facebook;
- Datblygu gweithlu'r Cyngor er mwyn gwneud y cynllun yn fwy cynaliadwy ac ymarferol o safbwynt ariannol;
- Cwrdd â'r Urdd er mwyn adolygu'r cynnydd;
- Yr angen i dargedu siaradwyr Cymraeg sy'n awyddus i weithio ym maes hamdden neu fod yn athrawon nofio, er mwyn buddsoddi mewn cynaliadwyedd hirdymor;
- Yr angen i dargedu grwpiau fel Cynorthwyr Cynnal Dysgu, pobl ifainc sy'n gadael yr ysgol a phobl sydd wedi ymddeol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad cynhwysfawr, gan nodi'r cynnydd cadarnhaol y mae'r Awdurdod Lleol wedi'i wneud er mwyn bodloni Safonau'r Gymraeg. Diolchodd y Grŵp Llywio i swyddogion y Gwasanaethau Hamdden, yn ogystal â'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg, am ddangos gwaith partneriaeth da.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o gysylltu â rhagor o Athrawon Nofio Cyfrwng Cymraeg drwy bobl ifainc sy'n gadael yr ysgol a myfyrwyr Prifysgol. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at yr elfen wirfoddol o gymhwyster Bagloriaeth Cymru a nododd y byddai'r ddarpariaeth yn ffordd gadarnhaol i'r disgyblion ennill y cymhwyster yn ogystal â meithrin sgiliau a chael cyflog. Eglurodd y swyddog ei bod hi'n anodd recriwtio pobl ifainc sy'n gadael yr ysgol a myfyrwyr prifysgol gan eu

bod nhw'n aml yn methu ag ymrwymo i'r 50 wythnos llawn oherwydd problemau teithio yn ystod y gwyliau. Soniodd y swyddog am gyfle a gafodd ei hysbysebu ar wefan prifysgol leol yn y gorffennol. Dywedodd mai dim ond siaradwyr Saesneg oedd wedi dangos diddordeb, yn anffodus.

Rhoddodd y Fenter Iaith gamoliaeth i'r adran am gymryd camau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a gofynnodd p'un a oedd y Cyngor yn bwriadu datblygu gwersi nofio cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion yn y dyfodol. Er nad yw Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gael gwersi nofio yn Gymraeg, a bod y Cyngor yn canolbwyntio ar wersi nofio y mae cwsmeriaid yn talu amdany'n nhw ar hyn o bryd, dywedodd y swyddog bod potensial ymestyn y gwasanaeth yma i ysgolion yn y tymor hir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad. **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnydd.

12 Adroddiad Blynyddol - Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg Adroddiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg 2018 – 2019 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, a oedd yn rhoi manylion am y drydedd flwyddyn o weithredu'r safonau, ynghyd â manylion am y cynnydd yn erbyn Safonau 52, 58 a 64. Cafodd y rhain eu gohirio hyd at 31 Mawrth 2018 yn y gorffennol.

Cafodd Aelodau'r Grŵp Llywio eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad, sy'n amlinellu'r gwaith mae'r Cyngor wedi'i wneud i gydymffurfio â nifer fawr o safonau sydd wedi cael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Esboniodd y swyddog bod dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi adroddiad blynyddol a'i ddsbarthu i'r cyhoedd. Yn ogystal â chynnwys y safonau; roedd yr adroddiad wedi'i wneud yn fwy tryloyw trwy amlinellu:

- (1) nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisiau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw;
- (2) nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw;
- (3) nifer y staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- (4) canran y staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- (5) nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Aeth y swyddog ymlaen i amlinellu'r datblygiadau allweddol y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn:

- a) Cyflwyno Hyfforddiant Lefel 1 yn y Gymraeg i bob aelod o staff newydd a benodir;
- b) Darparu hyfforddiant yn y Gymraeg i 455 o aelodau o staff (Mawrth 2019) ar bob lefel gyda rhagor o hyfforddiant Cymraeg yn nhymor yr Hydref 2018 ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Cymorth i

- Deuluoedd;
- c) Penodi Uwch Gyfieithwyr gan ganiatáu gwasanaeth mwy effeithlon, gyda chymorth penodol ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa'r Cabinet;
 - d) Darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau e.e. Pwyllgorau Craffu a Rheoleiddio;
 - e) Cyflwynwyd cwestiwn newydd i'w ddefnyddio ar gyfer pob ymgynghoriad ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei gael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg;
 - f) Adolygiad parhaus o dudalennau'r Wefan, gan ddileu unrhyw dudalennau nad oedd yn cydymffurfio

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Adran 5.2, lle roedd nifer o feysydd i'w gwella wedi'u nodi. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r capasiti i ateb y galw cynyddol am diwtora Cymraeg Lefel 1 a'r angen parhaus i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg. Aeth y Grŵp ymlaen i gael trafodaeth hir am bwysigrwydd nodi'r Gymraeg fel nodwedd 'hanfodol' ar ddisgrifiadau swyddi'r Awdurdod Lleol. Nododd yr Aelodau ei bod hi'n bwysig fod gan staff y rheng flaen, yn benodol, sgiliau Cymraeg sylfaenol wrth ateb y ffôn i'r cyhoedd, ond dywedodd un Aelod bod gallu'r unigolyn i gyflawni'i swydd lawer yn fwy hanfodol na'i allu i siarad Cymraeg. Holodd un Aelod arall p'un a fyddai nodi'r Gymraeg fel sgil 'hanfodol' neu 'ddelfrydol' ar ffurflen gais yn debygol o rwystro ymgeiswyr sydd ddim yn hyderus yn y Gymraeg rhag gwneud cais. Cytunodd yr Aelodau fod hyder yn her barhaus, a'i bod hi'n bwysig i ymgeiswyr y dyfodol ddeall bod Lefel 1 yn ymwneud â sgiliau sylfaenol sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg. Hefyd, mae modd meithrin y sgiliau yma drwy weithio i'r awdurdod.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r adran am ei waith caled parhaus yn y maes heriol yma, a nododd fod yr adroddiad yn amlinellu cynnydd da'r meysydd gwasanaeth o ran ymgorffi'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf a;
- b) Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

13 Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Comisiynydd y Gymraeg

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg ragor o wybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018, a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

Aeth y Swyddog ati i atgoffa'r Aelodau o'r drafodaeth hir ynglŷn â'r materion cymhleth o ran mabwysiadu Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol y Comisiynodd a gafwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref 2018. Yn ystod y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau (gyda chytundeb Aelodau'r Cabinet) y byddai Cadeirydd y Grŵp yn gofyn am gadarnhâd ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg o'r rhesymeg y tu ôl i'r rhestr cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad â chymunedau lleol.

Yn ôl y swyddog, mewn ymateb i lythyr gan Gadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar

faterion y Gymraeg, gofynnodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'r Cyngor ohirio unrhyw broses ymgynghori gan fod angen ailystyried yr argymhellion sydd wedi'u hamlinellu yn y rhestr mewn perthynas â RhCT. O ganlyniad i hynny, dysgodd yr Aelodau fod Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg wedi ysgrifennu at y Comisiynydd ers hynny yn gofyn a fyddai modd diwygio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol er mwyn adlewyrchu'r rhestr ddwyieithog o enwau lleoedd sy'n cael ei defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a nododd fod angen diwygio'r rhestr er mwyn adlewyrchu'r enwau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a hynny gan nad yw Comisiynydd y Gymraeg wedi llwyddo i ddarparu'r rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau.

Dywedodd un Aelod fod anghysondebau mewn perthynas â'r ddogfen o hyd, gan nodi y dylai'r fersiwn Saesneg o "Pont-y-gwaith" gael ei nodi fel "Pontygwaith".

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod rhestr gyhoeddedig y Comisiynydd wedi'i haddasu yn unol â chais y Cadeirydd, ond gofynnon nhw gwestiynau ynglŷn â'r arbenigwyr a'u hawl i benderfynu ar ffurf ysgrifenedig pob enw lle. Rhoddodd yr Aelodau gydnabyddiaeth i'r materion cymhleth sy'n ymwneud â diwygio enwau lleoedd a chytunon nhw fod angen cael adborth gan drigolion a fyddai'n cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau o'r fath yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cydnabod penderfyniad yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg mewn perthynas â'r rhestr;
- b) Nodi sefyllfa bresennol y Cyngor o ran rhestr arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol.

14 Ymgyrchoedd ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn 2019-2020

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymuned, wybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn â'r cynllun arfaethedig i hyrwyddo achlysuron lleol a chenedlaethol Cymraeg/dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol bob chwarter. Byddai hyn yn rhan o Gynllun Gweithredu 5 mlynedd y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

Soniodd y swyddog am bŵer y cyfryngau cymdeithasol, gan nodi eu bod yn ddull cyflym a chost-effeithiol o ymgysylltu ag amrywiaeth eang o drigolion yn Rhondda Cynon Taf. Yn amodol ar gymeradwyaeth Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai pedwar achlysur yn cael eu cynnal yn seiliedig ar eu pwysigrwydd fel gwyliau cydnabyddedig yng Nghymru. Nodwyd y byddai'r ymgyrchoedd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, ac y byddai'r gwaith hyrwyddo yn cyd-fynd a pharatoadau'r Cyngor i gynnal Eisteddfod Genedlaethol Iwyddiannus yn 2022. Yn ogystal â hynny, o ganlyniad i natur addysgiadol yr ymgyrchoedd, byddai'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r adnoddau sydd eisoes wedi'u rhannu gyda ni i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at y pedwar prif achlysur sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad. Eglurodd y byddai'r rhain yn cael eu cynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 (un fesul chwarter) yn dilyn eu cymeradwyaeth:

1. Eisteddfod yr Urdd - Chwarter 1
2. Diwrnod Owain Glyndŵr - Chwarter 2
3. Diwrnod Shw'mae – Chwarter 3
4. Dydd Gŵyl Dewi – Chwarter 4

Gan ddefnyddio'r Eisteddfod fel enghraifft, eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai hyn yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn dangos ei ymrwymiad i hyrwyddo gwaith partneriaid, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth 5 mlynedd. Byddai defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r achlysuron yn gyfle i annog ein holl drigolion i gymrwyd rhan, yn hytrach na dim ond y rheiny sy'n hyderus yn y Gymraeg.

Canmolodd un Aelod yr ymgyrchoedd ar gyfer Chwarter 1, 3 a 4, ond roedd e'n amheus am Ddiwrnod Owain Glyndŵr, a ph'un a fyddai'r ymgyrch yn hybu cynnwys Cenedlgarol. Nododd y Cadeirydd y pryder yma, ond eglurodd fod y trigolion yn aml yn dysgu am hanes brenhinoedd a brenhinesau Lloegr heb glywed am hanes Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Gymuned, fod nifer o ysgolion eisoes yn gwneud gwaith ar y pwnc a'i fod yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelod na fyddai'r ymgyrch yn cael ei defnyddio i hyrwyddo unrhyw fudiad gwleidyddol. Yn hytrach, y nod yw hyrwyddo rhan allweddol o hanes Cymru drwy sicrhau bod modd i bawb gael gafael ar y llyfrau perthnasol mewn llyfrgelloedd lleol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Materion Cyfathrebu, mai nod y pedwar achlysur uchod yw targedu diddordeb a gwybodaeth pobl am hanes Cymru yn hytrach na chydymffurfio â'r Safonau yn unig.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cyfle i gynnwys rhagor o ymgyrchoedd lleol yn y gwaith yma yn y dyfodol, a fyddai'n hybu diwylliant a threftadaeth. Awgrymodd un Aelod y gallai'r Cyngor gynnal achlysur i gofio Aneurin Bevan.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo'r ymgyrchoedd yn ffurfiol, yn ogystal â'r amserlen weithredu sydd wedi'i hamlinellu yn Atodiad 1 a 2 o'r adroddiad, yn amodol ar yr ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol.

15 Materion Brys

Siaradodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am eu cyffro mewn perthynas ag Eisteddfod 2022, a fydd yn digwydd yn Rhondda Cynon Taf.

Manteisiodd y Fenter Iaith ar y cyfle i gynnig cymorth er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r Cyngor. Cadarnhawyd y byddai Grŵp Llywio Sirol yn cael ei sefydlu, a fyddai'n cynnwys Rhanddeiliaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am

**Cllr G Hopkins
Cadeirydd.**

Y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid

Youth Engagement and Participation Service

Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg

Welsh Language Cabinet Steering Group
9 Hydref 2019



Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid / YEPS Priorities

BLAENORIAETH 1: Sefydlu gwasanaeth yn y gymuned ar gyfer pobl ifainc sy'n weladwy

BLAENORIAETH 2: Darparu cymorth ymyrraeth gynnar a chymorth atal ar gyfer pobl ifainc sy'n agored i niwed.

PRIORITY 1: Establish a visible, community based youth service

PRIORITY 2: Provide early intervention and prevention support for vulnerable young people



Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid / YEPS Priorities

BLAENORIAETH 3: Gwella ymgysylltiad, llesiant a gwydnwch pobl ifainc.

PRIORITY 3: Improve young people's engagement, wellbeing and resilience

BLAENORIAETH 4: Hwyluso cyfleoedd i bobl ifainc ddweud eu dweud a chymryd rhan yn eu cymunedau.

PRIORITY 4: Facilitate opportunities for young people to have their voices heard and actively participate in the communities



Staff

- YEO – Swyddog Ymgysylltu â Phobl Ifainc
Youth Engagement Officer
- CYOC- Cydlynnydd Cyfleoedd yn y Gymuned i Bobl Ifainc
Community Youth Offer Coordinator
- YEPO- Swyddog Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid
Youth Engagement & Progression Officer
- TSW- Gweithiwr Cymorth - Pontio Ôl-16 oed
Post 16 Transitional Support Worker



Staff

Swyddog Hawliau
Entitlements Officer

Swyddogion Iechyd Meddwl a Lles
Mental Health And Wellbeing Officers

Swyddog Datblygu'r Hwb Ieuenctid (Digartrefedd ymhlith Pobl Ifainc)
Youth Hub Development Officer (Youth Homelessness)

Golygydd Wicid
Wicid Editor



Gweithgareddau YEPS Activities

- Clybiau ar ôl Ysgol/ After School clubs
- Clybiau Ieuenctid / Youth Clubs
- Darpariaeth yn ystod y Gwyliau / Holiday Provision
- Darpariaeth nos Wener/ Friday Night Provision
- Darpariaeth 9-11 oed / 9-11 Provision



Prosiectau ychwanegol/ Additional projects

- VIBE
- Heads above the Waves
- Relax Kids
- Targedu'r ardaloedd sydd â llawer o achosion o Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol /
Target areas with high level of ASB
- Rhieni Ifainc / Young Parents



Ymgynghori a Hawliau / Consultation and rights

- Fforwm Ieuenctid Sirol / County Youth Forum
- Is-grwpiau Iechyd Meddwl a Gwrth-fwlio / Sub Groups – Mental Health & Anti Bullying
- Ymgynghoriadau / Consultations
- Arolwg Eich Llais / Your Voice Survey
- Llunio fersiynau o bolisiau sy'n addas i blant (Cynllun Llesiant Cwm Taf) / Create Child Friendly version of Local policies (Cwm Taf Wellbeing plan)

Tudalen 16



Eich Llais / Your Voice

- 26.8% yn gallu siarad Cymraeg/ 26.8% able to speak welsh
- 136 yn defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol (2.7%) / 136 use the Welsh language outside of School (2.7%)

Ble mae pobl ifainc eisiau defnyddio'r Gymraeg a'i dysgu? Where do young people want to use and learn Welsh?

- Clybiau ar ôl Ysgol / After School Clubs (1627)
- Darpariaeth yn ystod y gwyliau / School holidays (1164)



Darpariaeth Gymraeg / Welsh Language Provision

Cymorth un wrth un - YEO, YEPO, TSW neu Swyddogion Iechyd Meddwl a Lles

121 Support – YEO, YEPO, TSW or Mental Health & Wellbeing Officers

- Gweithgareddau ar ôl ysgol / After School Activities
 - Darpariaeth yn ystod y gwyliau – 4 Cyfrwng Gymraeg / Holiday Provision – 4 Welsh
 - Clwb Ieuenctid – Pentre'r Eglwys a Phenderyn / Youth Club – Church Village & Penderyn
 - Cymorth wedi'i dargedu / Targeted support
-
- **241 – gweithgareddau sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg / 241 activities offered through the medium of Welsh**



Amcanion Ar Gyfer y Dyfodol / Future Aims

- Cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i'r Cymry Cymraeg ifainc ddefnyddio'u Cymraeg tu allan i'r dosbarth / Increase the opportunities for Welsh speaking young people to use the Welsh language outside of the classroom
- Cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifainc sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg i ddysgu/defnyddio'r Gymraeg / Increase the opportunities for young people attending English medium schools to learn/use the Welsh language
- Pennu darpariaeth i bobl ifainc 16-25 oed (Sesiynau Magu Hyder) / Map provision for 16-25 yrs (confidence sessions)



Cryfderau a Chyfleoedd Strengths / Opportunities

- Staff y Gwasanaeth / YEPS staff
- Darpariaeth bresennol/cyfleoedd i bobl ifainc / Existing provision/opportunities for young people
- Partneriaeth â'r Urdd a Menter Iaith / Partnership with Urdd and Menter Iaith
- Cymorth Strategol / Strategic support



Heriau / Challenges

- Prinder darparwyr cyfrwng Cymraeg sy'n fodlon gweithio gyda phobl ifainc / Lack of Welsh language providers that are willing to work with young people
- Diwylliant Cymraeg yn RhCT / Culture of Welsh Language in RCT





BE INFORMED
BE INVOLVED
BE CREATIVE
BE WICID



YOUTH ENGAGEMENT & PARTICIPATION SERVICE

WWW.WICID.TV

Tudalen 22



/WICID.TV
/YEPSRCT



@YEPSRCT



@WICID.TV
@YESPRCT



@YESPRRhondda
@YEPSCynon
@YEPSTaf

Manylion Cyswilt / Contact

- GYCI@rhondda-cynon- Taf.gov.uk
yeps@rctcbc.gov.uk
- Bedwyr.Harries@rctcbc.gov.uk

Tudalen way

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

9 HYDREF 2019

Y DIWEDDARAF – RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS

AWDUR: Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg am argymhellion newydd Comisiynydd y Gymraeg (Atodiad 1) am [Restr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) a gafodd ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi sefyllfa bresennol y Cyngor o ran rhestr arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol.
- 2.2 Nodi cynnwys y Rhestr ddiwygiedig o Enwau Lleoedd Cymreig Safonol a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2019.
- 2.3 Cymeradwyo gweithredu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Cymru fel sy'n berthnasol i Ronda Cynon Taf yn rhannol, ac eithrio'r pedwar newid sylweddol sy'n ymwneud â Threorci, Rhydfelen, Llanwynno a Threfforest
- 2.4 Ystyried pa sylwadau, os oes yna rai, sydd ganddyn nhw i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Rhestr.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Nod Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau cysondeb a chywirdeb orthograffig ledled Cymru. Cafodd Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ei chreu i gefnogi hyn.

- 3.2 Serch hynny, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu ar y ffurflenni y maen nhw'n eu defnyddio ar gyfer enwau lleoedd yn eu hardal ddaearyddol.
- 3.3 Mae sensitifrwydd cymunedol yn perthyn i enwau lleoedd, ac mae modd i'r hyn sydd wedi'i dderbyn yn lleol fod yn bwysicach na rhesymeg academaidd wrth ystyried newidiadau arfaethedig – yn benodol mewn perthynas â Rhydfelen, Llanwynno a Threorci.

4. CEFNDIR

- 4.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru i unigolion a sefydliadau. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ffurfiau safonol ar gyfer trefnau gweinyddu cyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein.
- 4.2 Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf 2018 gan dynnu sylw at y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi nodi y byddai'n dymuno i'r Cyngor fabwysiadu'r rhestr yma.
- 4.3 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 lle bu'n ystyried yr argymhellion a gafodd eu gwneud gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â mabwysiadu enwau lleoedd sy'n berthnasol i Rhondda Cynon Taf.
- 4.4 Yn dilyn trafodaeth faith ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, penderfynodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, gyda chytundeb y Cabinet, y byddai Cadeirydd y Grŵp Llywio yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn sefydlu sail resymegol y newidiadau i enwau lleoedd, cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad gyda chymunedau lleol.
- 4.5 Cafodd safbwynt y Cyngor ei esbonio ymhellach wrth swyddogion o garfan Comisiynydd y Gymraeg ar eu hymweliad i Gwm Clydach. Cyfeiriwyd yn benodol at gymhlethdodau ac effaith unrhyw welliannau i enwau lleoedd ar drefnau gweinyddu busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- 4.6 Fe wnaeth gohebiaeth ddilynol gan swyddfa'r Comisiynydd ofyn i'r Cyngor ohirio unrhyw broses ymgynghori. Mae Cadeirydd y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion Cymraeg wedi ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg, gan gytuno y byddai'n annerbyniol symud ymlaen gydag unrhyw ymgynghoriad yn seiliedig ar y rhestr gyhoeddedig ar hyn o bryd.
- 4.7 O ganlyniad, cytunodd Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg i adolygu eu rhestr o enwau lleoedd yn Rhondda Cynon Taf.

5. Y SEFYLLFA BRESENNOL

- 5.1 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddwyd rhestr ddiwygiedig o enwau lleoedd safonol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n cynnwys peth manylder a rhesymeg ar yr argymhellion er mwyn llywio unrhyw benderfyniad ynghylch ymgynghori â'r cyhoedd neu beidio.
- 5.2 Mae'r rhestr ddiwygiedig yn parhau i fod, yn bennaf, yn gyson â'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol gyfredol ar gyfer RhCT ac mae'n ymddangos ei bod hefyd yn gwneud defnydd o enwau *Cymreig* sydd wedi'u mabwysiadu e.e. mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell osgoi defnyddio Aberllechau ar gyfer Wattstown neu Ystradyfodwg ar gyfer Ystrad.
- 5.3 Mae llai o newidiadau sylweddol wedi'u cynnwys yn y rhestr ddiwygiedig wreiddiol, y mwyafrif ohonyn nhw'n welliannau gramadegol e.e. defnyddio cysylltnod neu'r fannod bendant 'Y'. Bydd mabwysiadu'r argymhellion yma o fudd ariannol i'r Cyngor o ran arwyddion / maint arwyddion sy'n dod â'r angen am arwyddion dwyieithog fel Y Beddau / Beddau i ben.
- 5.4 Yn arbennig o bwysig o ran eu harwyddocâd, mae Rhydfelen (yn lle Rhydyfelin); Treorci (yn lle Treorchy); Llanwynno (yn lle Llanwono); a Threforest yn lle Treforest ar y rhestr. Mae bosibl bydd y rhain yn llai derbyniol i gymunedau na'r mân newidiadau wedi'u nodi yn 5.3 uchod.

6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 6.1 Dyw'r Cyngor ddim yn gyfrifol am gynnal **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** yn yr achos yma, gan fod y Rhestr o Enwau Lleoedd Cymreig Safonol wedi'i datblygu a'i hargymhell ar gyfer cael ei defnyddio gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

7. YMGYNGHORIAD

- 7.1 Derbyniodd Aelodau Lleol gadarnhad ysgrifenedig o'r newidiadau arfaethedig cychwynnol a chawson nhw eu gwahodd i ymateb er mwyn i'w sylwadau gael eu hystyried.
- 7.2 Ni fydd ymgynghori pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 9.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rheoleiddio'r maes gwaith yma.
- 9.2 Felly, pan fydd y Cyngor yn llunio polisi newydd, rhaid rhoi sylw dyledus i sicrhau y byddai unrhyw benderfyniad yn cynyddu effeithiau cadarnhaol ar

gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIAENT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â Strategaethau mewn perthynas â'r Gymraeg a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- 10.2 Mae'r pwnc sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad yma yn arbennig o berthnasol i nod rhif chwech o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) – sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ei nod yw sicrhau bod gyda'r Gymraeg statws cyfartal i'r Saesneg yng Nghymru. Ei nod hefyd yw gwarchod treftadaeth Cymru trwy sicrhau bod enwau lleoedd Cymru yn cael eu cadw.

11. CASGLIAD

- 11.1 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 i drafod y cyngor a oedd wedi'i roi i Rondda Cynon Taf gan Gomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.
- 11.2 Cafodd adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet a oedd yn gofyn am ganiatâd i ofyn am esboniad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg o sail resymegol unrhyw newidiadau arfaethedig i enwau lleoedd unigol cyn i unrhyw ymgynghoriad gael ei gynnal gyda chymunedau lleol.
- 11.3 Yn dilyn gohebiaeth â swyddfa'r Comisiynydd a oedd yn gofyn i'r Cyngor oedi cyn dechrau unrhyw ymgynghoriad, ymatebodd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg gan gytuno na fyddai'n ddoeth bwrw ymlaen ag unrhyw ymgynghoriad ar sail y rhestr sydd wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd.
- 11.4 O ganlyniad, cyfarfu Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mai 2019 ac mae argymhellion pellach wedi'u cyflwyno sy'n gyson, ar y cyfan, gyda'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol gyfredol ar gyfer RhCT a gyda llai o newidiadau sylweddol.

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Grŵp 1: Enwau wedi eu cyhoeddi yn y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol lle mae ffurfiau'r Cyngor yn cyfateb i argymhellion Tîm Safoni Bwrdd yr Iaith

Group 1: Names published in the List of Standardised Welsh Place-names where the Council's forms correspond with the recommendations of the Welsh Language Board's Standardisation Team

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Aberaman	Aberaman	SO0101		
Abercynon	Abercynon	ST0895		
Aberdâr/ Aberdare	Aberdâr/ Aberdare	SO0002		
Aber-nant	Aber-nant	SO0103		
Aberpennar/ Mountain Ash	Aberpennar/ Mountain Ash	ST0499		
Blaen-gwawr	Blaen-gwawr	SO0001		
Blaenllechau	Blaenllechau	SS9997		
Blaenrhondda	Blaenrhondda	SS9299		
Brynna	Brynna	SS9883		
Brynsadler	Brynsadler	ST0280		
Castellau	Castellau	ST0586		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Cefnpennar	Cefnpennar	SO0300		
Cilfynydd	Cilfynydd	ST0892		
Cross Inn	Cross Inn	ST0583		
Cwmaman	Cwmaman	ST0099		
Cwmdâr/ Cwmdare	Cwmdâr/ Cwmdare	SN9803		
Cwmpennar	Cwmpennar	SO0300		
Dinas	Dinas	ST0191		
Y Ddraenen-wen/ Hawthorn	Y Ddraenen-wen/ Hawthorn	ST0988		
Edmondstown	Edmondstown	ST0090		
Fernhill	Fernhill	ST0399		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Glynrhedynog/ Ferndale	Glynrhedynog/ Ferndale	SS9996		
Hendreforgan	Hendreforgan	SS9888		
Hirwaun	Hirwaun	SN9605		
Llanharan	Llanharan	ST0083		
Llanhari/ Llanharry	Llanhari/ Llanharry	ST0080		
Llanilltud Faerdref/ Llantwit Fardre	Llanilltud Faerdref/ Llantwit Fardre	ST0784		
Llantrisant	Llantrisant	ST0483		
Llwydcoed	Llwydcoed	SN9904		
Meisgyn/ Miskin	Meisgyn/ Miskin	ST0498		
Nantgarw	Nantgarw	ST1285		
Penderyn	Penderyn	SN9408		
Penrhiw-fer	Penrhiw-fer	ST0090		
Pentre	Pentre	SS9796		
Pen-y-groes	Pen-y-groes	ST1187		
Perthcelyn	Perthcelyn	ST0597		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehfin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Pontypridd	Pontypridd	ST0789		
Pwll-gwaun	Pwll-gwaun	ST0690		
Rhiwsaeson	Rhiwsaeson	ST0782		
Stanleytown	Stanleytown	ST0194		
Tonypandy	Tonypandy	SS9992		
Tonyrefail	Tonyrefail	ST0188		
Tonysguboriau/ Talbot Green	Tonysguboriau/ Talbot Green	ST0382		
Trealaw	Trealaw	SS9992		
Trecynon	Trecynon	SN9903		
Trehafod	Trehafod	ST0491		
Treherbert	Treherbert	SS9498		
Trehopcyn/ Hopkinstown	Trehopcyn/ Hopkinstown	ST0690		
Tresalem/ Robertstown	Tresalem/ Robertstown	SO0003		
Trewiliam/ Williamstown	Trewiliam/ Williamstown	ST0090		
Tylorstown	Tylorstown	ST0095		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Tynewydd	Tynewydd	SS9398		
Tyntetown	Tyntetown	ST0696		
Ynys-hir/ Ynyshir	Ynys-hir	ST0292		
Ynysmaerdy	Ynysmaerdy	ST0384		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Grŵp 2: Enwau wedi eu cyhoeddi yn y Rhestr lle nad yw ffurfiau'r Cyngor yn cyfateb ag argymhellion Tîm Safoni Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Group 2: Names published on the List of Standardised Welsh Place-names where the Council's forms don't correspond with the recommendations of the Welsh Language Board's Standardisation Team

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Abercwm-bói/ Abercwmboi	Abercwmboi	ST0299	<p><i>Abercwmboi</i> yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo. Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg'. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p> <p>Er bod y Panel yn cydnabod fod <i>Abercwmboi</i> yn adlewyrchu'r ynganiad (noder nad oes angen y cysylltnod), nid yw'r ffurf honno'n debygol o gael ei defnyddio'n gyson a gallasai arwain at ddyblygu ffurfiau.</p>	<p><i>Abercwmboi</i> is the form recommended in the national standard reference work, <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason. If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p> <p>Although the Panel recognises that <i>Abercwmboi</i> reflects the pronunciation (note that the hyphen is unnecessary), that form is unlikely to be used consistently leading to duplicating</p>

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
Y Beddau/ Beddau	Beddau	ST0585	<p><i>Beddau</i> yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo. Nid yw'r Panel felly yn credu bod y fannod yn rhan annatod o'r enw hwn; gellid, fodd bynnag, gynnwys nodyn esboniadol gyferbyn â'r enw yn egluro y caiff y fannod ei defnyddio ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg ('mynd i'r Beddau' ayb). Yn sicr, ni fyddai'r Panel yn argymhell gosod dwy ffurf ar arwyddion, er enghraifft.</p>	<p>forms.</p> <p><i>Beddau</i> is the form recommended in the national standard reference work, <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason. The Panel therefore doesn't believe that the Welsh definite article is an integral part of the name; however an explanatory note could be provided alongside the name explaining that the Welsh definite article is used in Welsh oral and written contexts (<i>'mynd i'r Beddau'</i> etc.). The Panel certainly doesn't recommend placing two forms on signage, for example.</p>
Blaenclydach	Blaenclydach	SS9893		

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehfin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			<p>y sill derfynol acennog.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg'. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p>	<p>therefore preceded by a hyphen.</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p>
Trebanog	Trebannog	ST0190	<p>Trebanog yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, Rhestr o Enwau Lleoedd (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Fodd bynnag, byddai'r Panel yn barod i gydsynio i fynd yn groes i'r ffurf hon ar sail tystiolaeth hanesyddol. Caiff y ffurfiâu hanesyddol isod eu cofnodi yn Place-names of Glamorgan (Welsh Academic Press, 2018): 'Trebannoge 1541, Trebannock 1631, Tire y Drebannog 1675, Trebannog 1732'.</p>	<p>Trebanog is the form recommended in the national standard reference work, A Gazetteer of Welsh Place-Names (University of Wales Press, 1967). However, the Panel would agree to counter the form recommended in the Gazetteer of Welsh Place-names on the basis of historical evidence. The following historical forms are recorded in Place-names of Glamorgan (Welsh Academic Press, 2018): 'Trebannoge 1541, Trebannock 1631, Tire y Drebannog 1675, Trebannog 1732'.</p>

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			mater?	What is the local authority's opinion on this matter?
Trefforest/ Treforest	Trefforest	ST0888	<p><i>Trefforest</i> yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo.</p> <p>Noder mai enw Cymraeg sydd yma sy'n cynnwys y geiriau Cymraeg 'tref' + 'fforest'. Dylid felly sillafu'r elfen 'fforest' fel gair Cymraeg gyda -ff-.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p>	<p><i>Trefforest</i> is the form recommended in the national standard reference work, <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason.</p> <p>Note that this is a Welsh name comprising the Welsh words '<i>tref</i>' (town) + '<i>fforest</i>' (forest). The '<i>fforest</i>' element should therefore be spelt as a Welsh word with the Welsh digraph -ff-.</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended, with preference being given to the Welsh form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p>
Treorci/ Treorchy	Treorci	SS9596	<i>Treorci</i> yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i>	<i>Treorci</i> is the form recommended in the national standard reference work, <i>A</i>

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			<p>(Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo.</p> <p>Noder mai enw Cymraeg sydd yma sy'n cynnwys yr elfennau 'tref' + enw'r afon 'Gorci'. Noder yn <i>Dictionary of the Place-names of Wales</i> (Gomer, 2007):</p> <p>'The commonly found form Treorchy may have been influenced by association with the r.n. Orchy, Argyll Scotland but is more likely to be a by-product of the contrived, literary <i>Abergorchwy</i> and <i>Fforch-orchwy</i>.'</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p>	<p><i>Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason.</p> <p>Note that this is a Welsh name comprising the elements 'tref' (town) + river name 'Gorci'. <i>Dictionary of the Place-names of Wales</i> (Gomer, 2007) notes that 'the commonly found form Treorchy may have been influenced by association with the r.n. Orchy, Argyll Scotland but is more likely to be a by-product of the contrived, literary <i>Abergorchwy</i> and <i>Fforch-orchwy</i>.'</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended, with preference being given to the Welsh form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p>
Tŷ-nant/	Tŷ-nant	ST0685	Defnyddir cysylltnodau mewn enwau lleoedd er mwyn cynorthwyo ynganiad	The hyphen is used in Welsh place-names in order to aid pronunciation by

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleuedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			<p>drwy ddangos pan <i>nad</i> yw'r brif acen yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un). Aceniad terfynol sydd i'r enw hwn, felly mae angen cynnwys cysylltnod o flaen y sill derfynol acennog.</p> <p>Noder hefyd fod angen yr acen grom uwch y gair Cymraeg 'tŷ'.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p>	<p>showing that stress does <i>not</i> fall on the penultimate syllable. The stress falls on the final syllable of this name and is therefore preceded by a hyphen.</p> <p>Please note that the circumflex is necessary in the Welsh word 'tŷ' (house).</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended, with preference being given to the Welsh form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p>
Tyn-y-bryn/	Tyn-y-bryn	ST0087	<p>Mae angen defnyddio cysylltnodau oherwydd bod y fannod (y/yr) yn dod o flaen rhan olaf unsill yr enw; defnyddir cysylltnodau cyn ac ar ôl y fannod er mwyn dangos yr elfennau unigol a hwyluso ynganiad.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o</p>	<p>The hyphen is used in Welsh place-names when the Welsh definite article (y/yr) occurs before a final monosyllable; hyphens are used before and after the definite article in order to highlight the individual elements and aid pronunciation.</p> <p>If the difference between the Welsh</p>

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			<p>wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.</p>	<p>form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended, with preference being given to the Welsh form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.</p>
<p>Tŷ-rhiw/ Ty Rhiw</p>	<p>Tŷ-rhiw</p>	<p>ST1283</p>	<p>Mae hi'n arferol ysgrifennu enw anheddiad yn un gair er mwyn gwahaniaethu rhwng aneddiadau a nodweddion tirweddol neu nodweddion eraill.</p> <p>Defnyddir cysylltnodau mewn enwau lleoedd er mwyn cynorthwyo ynganiad drwy ddangos pan <i>nad</i> yw'r brif acen yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un). Aceniad terfynol sydd i'r enw hwn, felly mae angen cynnwys cysylltnod o flaen y sill derfynol acennog.</p> <p>Noder hefyd fod angen yr acen grom uwch y gair Cymraeg 'tŷ'.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o</p>	<p>The name of a settlement is usually written as one word in order to distinguish between settlements and topographical or other type of features.</p> <p>The hyphen is used in Welsh place-names in order to aid pronunciation by showing that stress does <i>not</i> fall on the penultimate syllable. The stress falls on the final syllable of this name and is therefore preceded by a hyphen.</p> <p>Please note that the circumflex is necessary in the Welsh word 'tŷ' (house).</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a</p>

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffurfiâu'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.	single form is recommended, with preference being given to the Welsh form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.
Aberllechau / Wattstown	Wattstown	ST0193		
Ynys-boeth	Ynys-boeth	ST0796	Ynys-boeth yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, Rhestr o Enwau Lleoedd (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo. Defnyddir cysylltnodau mewn enwau lleoedd er mwyn cynorthwyo ynganiad drwy ddangos pan nad yw'r brif acen yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un). Aceniad terfynol sydd i'r enw hwn, felly mae angen cynnwys cysylltnod o flaen y sill derfynol acennog.	Ynys-boeth is the form recommended in the national standard reference work, A Gazetteer of Welsh Place-Names (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason. The hyphen is used in Welsh place-names in order to aid pronunciation by showing that stress does not fall on the penultimate syllable. The stress falls on the final syllable of this name and is therefore preceded by a hyphen.

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehfin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
<p>Ynys-wen/ Ynyswen</p>	<p>Ynys-wen</p>	<p>SS9597</p>	<p><i>Ynys-wen</i> yw ffurf y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Mae angen rheswm da dros fynd yn groes iddo.</p> <p>Defnyddir cysylltnodau mewn enwau lleoedd er mwyn cynorthwyo ynganiad drwy ddangos pan <i>nad</i> yw'r brif acen yn syrthio ar y goben (y sillaf olaf ond un). Aceniad terfynol sydd i'r enw hwn, felly mae angen cynnwys cysylltnod o flaen y sill derfynol acennog.</p> <p>Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', gan dueddu at y ffurf Gymraeg. Dyma hefyd ddymuniad yr</p>	<p><i>Ynys-wen</i> is the form recommended in the national standard reference work, <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967). One should not deviate from its recommendations without good reason.</p> <p>The hyphen is used in Welsh place-names in order to aid pronunciation by showing that stress does <i>not</i> fall on the penultimate syllable. The stress falls on the final syllable of this name and is therefore preceded by a hyphen.</p> <p>If the difference between the Welsh form and the 'English' form consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended, with preference being given to the Welsh</p>

Enwau Rhondda Cynon Taf (Mehefin 2019)
Rhondda Cynon Taf Place-names (June 2019)

Ffuriau'r Awdurdod Lleol (Cymraeg/Saesneg) Forms used by the Local Authority (Welsh/English)	Argymhellion y Tîm Safoni Enwau Lleoedd Forms recommended by the Standardisation of Place-names Team	Cyfeirnod grid Grid reference number	Nodiadau a chwestiynau i'r Awdurdod Lleol	Notes and questions for the Local Authority
			Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd.	form. This accords with the recommendations of the Ordnance Survey and the Highway Authorities.
Ystradyfodwg / Ystrad	Ystrad	SS9895	Er mai <i>Ystradyfodwg</i> yw ffurf y <i>Rhestr o Enwau Lleoedd</i> (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), mae ein Panel o'r farn mai ffurf hynafiaethol yw hon sy'n cael ei defnyddio fel enw ar y plwyf yn hytrach nag ar yr anheddiad. Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig lle bo hynny'n bosibl.	Although the form recommended in the <i>A Gazetteer of Welsh Place-Names</i> (University of Wales Press, 1967) is <i>Ystradyfodwg</i> , our Panel believes that this is an antiquarian form used to refer to the parish rather than the settlement. The use of a single form is recommended where possible.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

9 HYDREF 2019

**GWASANAETHAU'R GYMRAEG - STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG -
ADRODDIAD CYNNYDD**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA
DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

AWDURON: Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymuned
(01443 425512)
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yma yw darparu trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o gyflawniad y Cyngor yng nghyd-destun Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gafodd ei chymeradwyo ar 25 Ionawr 2017.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth;
- 2.3 Cymeradwyo parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu yn amodol ar ychwanegu camau pellach i fynd i'r afael â meysydd penodol sydd angen eu gwella. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad.

3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd y Strategaeth Bum Mlynedd gyntaf ei chymeradwyo yn 2016 a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 30 Hydref 2016.

- 3.2 Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Hwyluso a Hyrwyddo'r Gymraeg ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Ionawr 2017. Nodwyd mai Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg oedd y grŵp priodol ar gyfer monitro cyflawniad y Cynllun Gweithredu.
- 3.3 Hanner ffordd drwy amserlen y Cynllun Gweithredu, mae'n briodol i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ystyried cynnydd y cynllun a'i gymharu â'r targedau a'r camau sydd wedi'u nodi, gan ystyried unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i sicrhau bod y cynllun yn cwrdd â'r amcanion sydd wedi'u nodi erbyn 2021.

4. CEFNDIR

- 4.1 Cafodd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) eu datblygu yn ystod 2016 ar y cyd â Sbectrwm, sefydliad â phrofiad helaeth o gynllunio ieithyddol; Menter Iaith ac aelodau o Fforwm Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor a Chynghorwyr.
- 4.2 Ymgynghorwyd â thrigolion er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith. Cawson nhw eu gwahodd i roi'u barn ynglŷn â pha weithgareddau fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith orau. Cafodd yr ymgynghoriad yma ei gynnal rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016.
- 4.3 Roedd adborth yr ymgynghoriad yn hanfodol i ddatblygiad Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg, sy'n canolbwyntio ar:
- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 6.8% i 29,670 erbyn 2021;
 - cynyddu'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus,
 - codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd y De.
- 4.4 Cafodd pwysigrwydd llunio Cynllun Gweithredu effeithiol i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y strategaeth ei atgyfnerthu pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr iaith, Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2017.
- 4.5 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n ddwy ran:
- Mae Rhan 1 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni naill ai drwy eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;

- Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau mae aelodau Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni yn unol â'u cytundebau cyllido gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo a Hwyluso'r Gymraeg.

4.6 Mae pob gweithgaredd a phob targed wedi'u pennu dan y themâu canlynol:

- Addysg - o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth uwchradd
- Trosglwyddo'r iaith yn y cartref
- Plant, phobl ifainc a theuluoedd
- Gweithgareddau yn y gymuned
- Cymraeg yn y Gweithle

4.7 Cafodd ei gytuno gan Brif Swyddog Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar ddechrau Gorffennaf 2016 y dylai Prif Swyddog gael ei nodi ar gyfer pob cam er mwyn sicrhau atebolrwydd.

4.8 Mae'r cynnydd sy'n ymwneud â llawer o'r targedau yma yn cael eu cofnodi yn ystod proses hunanwerthuso'r Cyngor, sy'n sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau'r gwasanaethau heb ychwanegu at lwyth gwaith y gwasanaethau. Mae'r wybodaeth yna'n cael ei chynnwys mewn Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

5. Y SEFYLLFA BRESENNOL A'R CYNNYDD

5.1 Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd hyd yma yn erbyn y targedau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu. Fel y gwelir, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ym meysydd rhai themâu, gyda rhai targedau wedi'u cyflawni'n barod o fewn eu hamserlenni.

5.2 Mae targedau sydd wedi'u cyflawni'n llawn a/neu sydd wedi'u hymgorffori ar gyfer y tymor hir yn cynnwys:

- Dosbarthu'r daflen 'Bod yn Ddwyieithog' a gweithredu ymgyrch farchnata i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd
- Adleoli ysgolion cynradd neu adeiladu estyniadau i ysgolion cynradd er mwyn cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion
- Llunio deunyddiau i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.
- Fe wnaeth datblygu Strategaeth ar y Cyd arwain at ddefnydd Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid o'r Gymraeg fel iaith ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Sefydlu cyfres o weithdai amrywiol, e.e. drama, ar gyfer gwahanol ddiddordebau

- Sefydlu Fforymau Defnyddio Iaith yn yr Ysgolion Cyfrwng Cymraeg
- Trefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol drwy'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Mae gweithgareddau Cymraeg wedi'u cynnwys yn rhan o'r arlwy dros wyliau ysgol e.e. drwy'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r Gwasanaeth Celfyddydau.
- Mae hyfforddiant Hyrwyddwyr Iaith ar gael i staff Canolfannau Hamdden
- Mae adroddiadau rheolaidd am gydymffurfiaid y Cyngor gyda Safonau'r Iaith Gymraeg yn cael eu llunio gan Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg
- Mae Strategaeth Sgiliau Iaith wedi'i datblygu ac yn cael ei rhoi ar waith
- Cafodd archwiliad sgiliau iaith ei gynnal o fewn yr amserlen ofynnol. Cafodd rhaglen hyfforddi ei gweithredu ac mae'n cael ei darparu yn barhaus
- Mae deunyddiau hyrwyddo, adnoddau ac ati wedi'u datblygu ac yn parhau i gael eu datblygu er mwyn meithrin parch tuag at ddwyieithrwydd
- Mae mewnwyd y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio staff at adnoddau ac mae pob aelod o staff yn derbyn deunyddiau hyrwyddo drwy sawl cyfrwng - bydd hyn yn parhau
- Mae dewis iaith pob aelod o staff y Cyngor wedi'i gofnodi, ac mae dewis iaith pob aelod staff newydd yn cael eu cofnodi wrth iddyn nhw ddechrau ar eu gyrfaedd gyda'r Cyngor
- Mae cynlluniau sy'n meithrin amgylchedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog yn amlwg ledled pob un o swyddfeydd y Cyngor ac mae llofnod e-bost ac ati yn ddwyieithog.
- Mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd mewnol. Mae cyfieithwyr y Cyngor wedi'u hyfforddi i ddarparu'r gwasanaeth yma a bydd penodiadau newydd i Wasanaethau Cymraeg yn cael eu hyfforddi.

5.3 Mae cynnydd i'w weld yn y meysydd canlynol:

- Mae staff blynyddoedd cynnar yn cael eu cyfeirio at gymwysterau hyfforddi perthnasol;
- Mae nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu.
- Lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n gallu dweud geiriau/brawddegau syml yn Gymraeg wedi cynyddu o ganlyniad i hyfforddiant ein tiwtor mewnol.
- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu hybiau cymunedol ac mae gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried drwy waith gyda phartneriaid;
- Mae'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion yn parhau i gynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac wedi cynyddu'r ddarpariaeth ers 2016. Serch hynny, mae'n dal i fethu cynnal 5% o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn, er

bod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg eraill wedi'u cynnig, fel Gwau â Gwên a Chaffi Cyfeillgar (Chatty Café);

- Gosod Cysill a Cysgair ar gyfrifiaduron/llechi staff a chynghorwyr yn parhau;
- Rhyngwyneb dwyieithog ar gyfer y fewnwyd wedi'i lansio;
- Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg RhCT wedi cyflawni Gwobr Efydd Siartr Iaith, gyda'r wobwr gyfatebol i ysgolion cyfrwng Saesneg, Cymraeg Campus, wedi'i lansio ar draws canol de Cymru yn ystod Gorffennaf 2018.
- Fe wnaeth gofrestrïadau ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion godi o 740 yn 2017/18 i 775 yn 2018/19;
- Mae 250 o bobl ychwanegol wedi cofrestru i dderbyn cylchlythyr e-achlysur Menter Iaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae cynllun busnes a chynllun adeiladu wedi'i ddatblygu ar gyfer Clwb y Bont - yn y broses o chwilio am gyllid i ddatblygu'r safle.

5.4 Mae'r meysydd sydd fwyaf heriol i fynd i'r afael â nhw ac/neu i fonitro'r cynnydd yn cynnwys:

- Camau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Cafodd cynnwys rhai o'r targedau hyn eu cydnabod fel rhai uchelgeisiol wrth eu datblygu, ac maen nhw'n profi i fod felly am amryw o resymau;
- Mae gweithredoedd a thargedau lle mae partneriaid yn Gyrrff Arweiniol arnyn nhw yn profi'n her o ran monitro, gan nad oes rheidwydd arnyn nhw i rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor ac mae unrhyw gamau y maen nhw'n eu cymryd yn wirfoddol. Yn ogystal, mae'n bosibl bod adnoddau oedd ar gael pan gafodd y cynllun ei ddatblygu bellach wedi'u lleihau a/neu mae'n bosibl nad yw cytundebau meysydd penodol o waith yn bodoli erbyn hyn.

6. CAMAU NESAF

6.1 Mae'n werth nodi bod llawer iawn o waith wedi'i wneud gan wasanaethau'r Cyngor a Phartneriaid i geisio cyflawni'r targedau uchelgeisiol sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd angen edrych yn fanylach a chanolbwyntio ar feysydd lle bu llai o gynnydd er mwyn sicrhau bod gwelliant yn erbyn y targedau erbyn diwedd y cyfnod o Bum Mlynedd. Mae'n bosibl bydd angen:

- diwygio rhai o'r targedau i adlewyrchu amgylchiadau sydd wedi newid;
- newid gwasanaeth y Cyngor/Corff Partner i adlewyrchu newid yn strwythur neu gyfrifoldebau sefydliadol;

- trafod ffyrdd i'r elfennau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid gael ei harolygu gyda Fforwm Iaith, a chytuno ar broses i fonitro cynnydd.
- 6.2 Mae hefyd angen ystyried datblygiadau ar lefel lleol a chenedlaethol ers 2016 wrth edrych ar y camau nesaf. Ym mis Tachwedd 2018, (*dros ddwy flynedd wedi'r gofyniad i gyhoeddi strategaeth 5 mlynedd gael ei orfodi ar y Cyngor*) cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ganllaw arfer gorau ar gyfer strategaethau pum mlynedd i gynghorau sir a bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parc Cenedlaethol. Mae'r canllaw'n nodi'r gofynion statudol yn glir. Mae hefyd yn edrych ar elfennau hanfodol unrhyw arfer da i gefnogi'r ddwy brif elfen sy'n ganolog i'r strategaethau pum mlynedd, yn bennaf, nifer siaradwyr yr iaith a defnydd o'r iaith.
- 6.3 Mae'r Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 2018/19 yn nodi'r meysydd allweddol canlynol fel rhai sydd angen i'w gwella:
- Serch cydnabod bod profiadau defnyddwyr yn gwella o hyd, mae angen cysondeb er mwyn magu'r ffydd ymhlith pobl bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar bob adeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
 - Mae angen i sefydliadau annog defnydd o wasanaethau Cymraeg, a'u gwneud yn hawdd i'w defnyddio yn ogystal â deall realiti profiadau defnyddwyr;
 - Mae angen i sefydliadau roi ystyriaeth strategol a manwl i gynyddu'u defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau am bolisiâu ac mewn perthynas ag iaith gweithrediadau mewnol.
- 6.4 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, mae darparu hyfforddiant Cymraeg i 455 aelod o staff y Cyngor (Mawrth 2019) ar bob lefel ieithyddol, gyda hyfforddiant Cymraeg ychwanegol yn nhymor yr Hydref 2018 ar gyfer lleoliadau Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd wedi cael ei gymeradwyo. Mae'n amlwg erbyn hyn y dylai sicrhau bod plant yn gallu parhau ar hyd y continwwm ieithyddol fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor os ydyn ni am gyrraedd ein holl rwymedigaethau statudol. Mae'n werth nodi bod 14 o'r 23 hunanwerthusiad ar gyfer 2018/19 wedi amlygu'r ffaith fod angen gwella sgiliau iaith Cymraeg staff ac roedd gan y mwyafrif o'r 14 hynny gyfrifoldeb darparu gwasanaeth rheng flaen. Bydd gwella'r ddarpariaeth i staff a'u cefnogi i wneud defnydd o'r hyfforddiant sydd ar gael yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r Strategaeth Bum Mlynedd gyrraedd ei cham olaf.
- 6.5 Er mwyn cefnogi Cynghorau i wireddu nifer o'u targedau Strategaethau Pum Mlynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen o'r enw Cymraeg Gwaith/Work Welsh sy'n darparu hyfforddiant a deunyddiau dysgu Cymraeg am ddim am y tro cyntaf, gan wneud defnydd o dri dull:

- Tiwtora ar-lein am ddim (cyrsiau 10 awr) i ddechreuwyr;
- Dilyniant 120 awr /240 awr dros flwyddyn ariannol i gefnogi datblygu sgiliau iaith;
- Cyrsiau preswyl wythnos o hyd am ddim i alluogi dysgwyr i ddatblygu o sgiliau iaith canolradd i uwch.

6.6 Mae disgwyl i Gyngorau fanteisio ar y ddarpariaeth yma, gan ei fod yn cael ei ddarparu mewn ymatebion uniongyrchol i bryderon gan y sector am gostau hyfforddi. Mae Cyngorau Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Caerffili a Cheredigion yn ogystal â rhai Byrddau Iechyd Lleol wedi dechrau rhaglenni Cymraeg Gwaith/Work Welsh. Er ein bod yn croesawu mynediad at hyfforddiant am ddim, mae hi'n parhau'n her i lenwi bylchau pan fod staff yn manteisio ar yr hyfforddiant.

6.7 Yn olaf, ar lefel leol, mae cais llwyddiannus y Cyngor i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2022 yn dyst i'w ymrwymiad i hwyluso a hyrwyddo'r iaith yn y sir. Bydd yn darparu cyfleoedd pellach i ddatblygu gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog i drigolion a fydd yn cyfrannu at gyflawni nifer o'r targedau yn y Cynllun Gweithredu.

7 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

8 YMGYNGHORI

8.1 Cafodd proses ymgynghori ei chynnal cyn i'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu gael eu cymeradwyo yn 2017.

9 GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, fe fydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio maes y gwaith yma.

11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.

12 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor

gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

- 12.1 Mae Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir.
- 12.2 Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o Nod 6 y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyna'u dymuniad.

13. CASGLIAD

- 13.1 Mae cynnydd da wedi'i wneud ym meysydd allweddol o Gynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg, fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 uchod. Serch hynny, mae rhai targedau yn heriol am eu bod yn uchelgeisiol iawn ac mae angen gwaith pellach dros y ddwy flynedd sydd i ddod i fynd i'r afael â nhw, ar y cyd â phartneriaid allweddol.
- 13.2 Mae hi hefyd yn amser addas i adolygu'r gweithredoedd a thargedau gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn ystyrlon tra bod newidiadau i sefydliadau a chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar lefel genedlaethol.

Cynllun Gweithredu i Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Nod y Cynllun Gweithredu canlynol yw datblygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf dros flynyddoedd lawer. Mae'n gynllun pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 3%
- cynyddu ei defnydd ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- codi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r dull partneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Mae dwy ran i'r Cynllun fel bod eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor, a swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau o'r Fforwm Iaith ar gyfer cyflawni targedau.

Mae **Rhan 1** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni, un ai drwy'u cyflenwi'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner;

Mae **Rhan 2** yn nodi'n fras y gweithgareddau a'r targedau y mae'r Fforwm Iaith yn gyfrifol am eu cyflawni o dan ei gytundebau ariannu gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Cydnabyddir nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros weithgareddau a chyflawniad partneriaid fel y nodir yn Rhan 2 ond fe all y Cyngor fod mewn sefyllfa i gydweithio a chomisiynu aelodau o'r Fforwm Iaith i gyflenwi gweithgareddau ychwanegol er mwyn bwrw targedau'r Cyngor fel y nodir yn Rhan 1 o'r Cynllun Gweithredu.

Dylid nodi mai cyfrifoldeb y Cyngor yw'r strategaeth 5 mlynedd yn bennaf a'r Cyngor sy'n gyfrifol am ei rhoi hi ar waith yn unol â Safon 145 o Reoliadau'r Iaith Gymraeg 2015.

RHAN 1

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
Addysg – Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar	Darparu hyfforddiant Cymraeg a gofal plant priodol ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Gweithio gyda phrosiect Cam wrth Gam sy'n cyflwyno Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysg a Datblygiad Plant	Sicrhau bod 10 gweithiwr gofal plant o RhCT a'r ardal gyfagos yn cael eu hyfforddi'n flynyddol ac yn cael cymwysterau perthnasol	Dechrau'n Deg	'Cam wrth Gam' (Mudiad Meithrin)	- 20 ymarferydd Dechrau'n Deg wedi cwblhau cyrsiau Croesi'r Bont. - 12 ymarferydd Dechrau'n Deg wedi cofrestru i ddechrau hyfforddiant (Open Learning) Cymraeg a Chymraeg Babi ym Mhrifysgol De Cymru ym mis Medi 2019. - Mae Mudiad Meithrin wedi darparu cwrs Croesi'r Bont yn lleoliadau Ynyshir ac Wattstown.

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar gyfrwng Cymraeg (CC)	Gweithio gyda Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i hybu manteision addysg ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg	Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (CC) 50%	Dechrau'n Deg	Mudiad Meithrin; Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Canran y lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi o: 12% yn 2016/17 i 24% yn 2018/19 Cynnydd o 100% rhwng 2016 a 2018.
	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd oriau dydd cyfrwng Saesneg yn bennaf	Cynnwys y Gymraeg mewn gweithgareddau chwarae i sefydlu patrymau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn Gymraeg	Nodi o leiaf 10 grŵp chwarae / meithrinfa oriau dydd sy'n gallu cyflwyno geiriau, brawddegau a phatrymau a chaneuon sylfaenol yn Gymraeg	Dechrau'n Deg	Wales PPA; PACEY, NDNA Cymru	6 lleoliad Dechrau'n Deg, 36 ymarferydd, wedi dilyn yr hyfforddiant perthnasol sydd wedi'i ddarparu gan ein tiwtor mewnol ni dros gyfnod o 6 wythnos.
Addysg –	Lansio ymgyrch	Dosbarthu taflen	Lansio ymgyrch	Gwasanaethau	Menter Iaith;	Canolfannau/Cydlynwyr

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
Sector Cynradd	marchnata eang i hybu manteision addysg cyfrwng Cymraeg a buddion dwyieithrwydd	'Bod yn Ddwyieithog' a chreu offer marchnata eraill i gynyddu'r niferoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	marchnata ar ddechrau 2017 a chynllunio cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd a gweithgareddau parhaus o un flwyddyn i'r llall	Cymraeg	Yr Urdd; RHAG; Fforwm Iaith; Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg	Dechrau'n Deg i rannu 200 llyfryn yn flynyddol. Gwasanaethau Cymraeg wedi darparu nifer o adnoddau a chynnwys i'r garfan Gyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus i'w hyrwyddo drwy'n cyfryngau cymdeithasol ni. Mae'r rhain yn cynnwys fideos Cymraeg i Blant Llywodraeth Cymru.
	Cynyddu gallu ysgolion cynradd	Adleoli Ysgol Gymraeg	Cynyddu niferoedd o 60 o	Addysg	Ysgolion	Mae cyfleusterau newydd ac wedi'u hadnewyddu

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
	cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau allweddol	Tonyrefail i safle presennol Tonyrefail Primary School	leiaf			wedi bod yn Nhonyrefail ers mis Medi 2018. 120 o leoedd ychwanegol (ffynhonnell: Adroddiad Cabinet 9/4/19)
	Cynyddu gallu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau allweddol	Ymestyn Ysgol Gymraeg Llwyncelyn i safle babanod Llwyncelyn gyferbyn	Cynyddu niferoedd o 100 o leiaf	Addysg	Ysgolion	Estyniad wedi'i gwblhau yn 2018, yn ôl y cynllun. Bydd rhagor o welliannau yn ystod haf 2019. 100 o leoedd ychwanegol (ffynhonnell: Adroddiad Cabinet Report 9/4/19)
	Ystyried effaith datblygiadau tai newydd ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg	Cynllunio ar gyfer y cynnydd tebygol yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn	Llunio cynlluniau wrth gefn mewn ardaloedd wedi eu targedu yn arbennig yn ne'r	Addysg	Adfywio a chynllunio	Addysg yn parhau i weithio'n agos â chyd- weithwyr o'r garfan Rheoli Datblygu i sicrhau eu bod yn rhan o'r camau

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
		ardaloedd datblygu	sir			cynllunio ar gyfer ystâd dai newydd cyn gynted â phosibl. Unwaith bydd cadarnhad bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen, a bod cytundeb ynglŷn â nifer y tai bydd yn cael eu codi, bydd asesiad ar yr effaith ar ysgolion yr ardal yn cael ei gynnal. Bydd hyn er mwyn gweld os bydd prinder posibl o leoedd ysgol ac ym mha sector addysg. Mae'r achos fusnes am ddarparu cyllid ar gyfer darpariaeth ysgol ychwanegol (a allai fod yn golygu estyniadau i

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
						ysgolion sy'n bodoli'n barod neu ddarparu ysgolion newydd) yn cael ei wneud.
	Ymateb i ymgyrch Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050	Cyflwyno'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Trafod y posibiliadau o gynnal peilot o'r cynllun mewn 5 ysgol gynradd i ddatblygu sgiliau dwyieithog plant yn y Cyfnod Sylfaen dros y 5 mlynedd nesaf	Addysg	Ysgolion	Opsionau amgen wedi'u dilyn. Yn bennaf, cyflwyno Cymraeg Campus, fframwaith Siartr Iaith sy'n hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg - adroddir isod. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion i newid categori iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o'i statws ddeuol bresennol i

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
						3-11 ysgol gynradd gymuned cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnyddu'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Dolau (ysgol ddwyieithog) i 921, gyda 124 lle Meithrin rhan amser, gan weld potensial i ddyblu'r lleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn ddibynnol ar ddewis rhieni.
	Datblygu Siarter iaith sydd yn annog y defnydd o'r Gymraeg	Addasu'r Siarter iaith lwyddiannus a weithredwyd gan AALlau	Datblygu Siarter iaith ar gyfer disgyblion sydd yn	Gwasanaethau Cymraeg	Consortiwm Canolbarth y De Menter iaith	'Cymraeg Campus' – peilot llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng nghlwstwr Y

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
	mewn ysgolion ac yn y gymuned	Gwynedd a Sir Gaerfyrddin	astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith		Yr Urdd	Pant. Y cynllun wedi'i rannu yn ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyd RhCT. Chwe ysgol wedi llwyddo i gyrraedd gwobr efydd 'Cymraeg Campus' cyn diwedd Gorffennaf 2019. Mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ymateb yn dda i'r 'Siarter Iaith'. Mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg wedi cyrraedd y wobr efydd ac mae pedwar wedi derbyn y wobr arian cyn diwedd Gorffennaf 2019. Mae 'Siarter Iaith' hefyd wedi'i chyflwyno i bob ysgol uwchradd cyfrwng

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
						Cymraeg ers Gorffennaf 2019.
Addysg – sector uwchradd	Cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg	Creu cynlluniau i gynyddu darpariaeth CC o ganlyniad i ragamcan o'r twf yn y sector cynradd	Sicrhau niferoedd cynyddol ym mhob ysgol uwchradd CC erbyn 2021	Addysg	Ysgolion	Mae'r gwaith yma'n cael ei gynnal fel rhan o ddyletswyddau cynllunio ysgolion statudol y Cyngor, ac ar y cyd â'r gwaith sy'n cynnwys datblygiadau tai newydd. Mae cyfleoedd am gyllid yn cael eu hadolygu'n barhaus fel rhan o Raglen Addysg ac Ysgolion y 21 ^{ain} Ganrif. O ganlyniad, bydd achosion busnes yn cael eu datblygu i wella a chynyddu lleoedd y disgyblion yn YG

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
						Rhydywaun (o 20%) ac YGG Aberdâr (o 16%). Mae'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gartholwg wedi cynyddu 85 lle yn dilyn gwaith cynnal a chadw i ystafelloedd dosbarth.
	Cynyddu'r cyfleoedd mewn ysgolion CS i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddyd	Rhoi cymorth i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (CS) i ddatblygu ar hyd y continwmm iaith	Nodi rhai ysgolion uwchradd CS sydd yn fodlon ac yn gallu cynyddu darpariaeth CC mewn ystod o bynciau	Addysg	Ysgolion	Dim cynnydd wedi'i adrodd.
	Galluogi dysgwyr i drosi o	Trafod y posibilrwydd o	Nodi un ysgol CC a allai	Addysg	Consortiwm Canolbarth y	Fe wnaeth Addysg ac Ysgol Gyfun Cwm

Maes Polisi	Nodau	Gweithgaredd	Targed erbyn 2021	Gwasanaethau'r Cyngor	Partneriaid posibl	Cynnydd hyd yma (Awst 2019)
